



Lleihau Rhybuddion Gan Larymau Tân Awtomatig

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



YN EICH CEFNOGI CHI I AMDDIFFYN EICH BUSNES

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Pam lleihau camrybuddion	5
Achosion cyffredinol	6
Camau y gellir eu cymryd	7
Geirfa	13

Cyflwyniad

Pwrpas y nodyn cyfarwyddyd hwn yw amlygu arferion gwell, cynnig cyngor technegol a gweithdrefnol i'r rhai hynny sy'n cael eu heffeithio gan gamrybuddion gan systemau larwm tân awtomatig a rhoi cefnogaeth sylfaenol i Bersonau Cyfrifol a Phersonau Cymwys.

Ystadegau Sylfaenol

Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru - 2016/17:

- Cafwyd **10,060** o gamrybuddion gan Systemau Larwm Tân Awtomatig (LTA) ,sydd gyfystyr â **27%** o'r holl ddigwyddiadau a fynychwyd gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA)
- Mae cost cam-rybuddion yn £3 miliwn i'r Gwasanaethau Tân ac Achub Cymreig a £29 miliwn i'r economi Cymreig yn flynyddol

Mae mwyafrif helaeth y camrybuddion hyn o ganlyniad i wallau neu gamau dynol ac o'r herwydd rydym yn ymwybodol o'r hyn sydd yn achosi'r camrybuddion. Drwy ddefnyddio synnwyr cyffredin a gwiriadau sylfaenol mae modd adnabod y camrybuddion hyn cyn galw'r GTA. Felly, mae dulliau gweithredu cywir yn seiliedig ar Asesiad Risgiau Tân y safle a chynnal a chadw priodol yn bwysig. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd gan ffynonellau allanol yn dilyn cyswllt â rhanddeiliaid perthnasol.



Pam lleihau camrybuddion

Yr effaith y mae camrybuddion yn ei gael

- Risg diangen i'r criw a'r cyhoedd wrth ymateb (h.y. gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd a damweiniau perthnasol)
- Amharu ar weithgareddau lleihau llosgi bwriadol, cefnogaeth i fusnesau a diogelwch cymunedol (e.e. addysg, gosod larymau mwg domestig, ayb.)
- Amharu ar hyfforddiant personél gweithredol
- Lladd ysbryd y personél gweithredol
- Ychwanegu tuag at gostau'r GTA (e.e. tanwydd, traul ar gerbydau, costau anfon allan eraill, ayb.)

Yr effaith ar Fusnesau

- Amharu ar fusnesau (e.e. amser segur, amser a wastreffir, colli busnes a lladradau)
- Cost i fusnesau sydd yn cyflogi diffoddwyr tân System Dyletswydd Rhan Amser ac sydd yn rhyddhau staff i ymateb i ddigwyddiad
- Chwalu hyder y defnyddiwr yng ngwerth a dibynadwyedd Systemau LTA ac annog pobl i beidio â chymryd y systemau hyn o ddifri. Fe all hyn arwain at oedi wrth ymateb i dân gwirioneddol neu hyd yn oed beidio ag ymateb o gwbl
- Mae camrybuddion sydd yn cael eu trosglwyddo i Sefydliadau Monitro Larymau Tân yn cael effaith ar eu hadnoddau (h.y. wrth ddelio gyda chamrybuddion gan larymau awtomatig, nid yw'r cysylltwyr ffôn ar gael i ddelio gydag argyfyngau gwirioneddol). Mae Sefydliadau Monitro Larymau Tân yn cynnwys Canolfannau Derbyn Rhybuddion, Darparwyr Gwasanaeth Teleofal, ayb

Yr effaith ar y Gymuned

- Dargyfeirio gwasanaethau hanfodol oddi wrth argyfyngau gwirioneddol, a thrwy hyn beryglu bywydau ac eiddo
- Risg ddiangen i'r cyhoedd wrth ymateb (h.y. gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd)
- Effaith ar yr amgylchedd oherwydd bod cerbydau tân ar y ffordd yn ddiangen (h.y. sŵn, llygredd aer a thraffig)
- Traul ar y pwrs cyhoeddus

Achosion Arferol

Y mae modd osgoi'r achosion arferol a nodir isod drwy gynyddu ymwybyddiaeth a chymryd camau syml:

Cyffredinol (yn cynnwys Gwallau Dynol)

- Mygdarthau coginio
- Stêm
- Chwistrellau aerosol
- Llŵch, thripsod, pryfed, ayb. yn y synwryddion
- Ysmygu ger synwryddion
- Prosesau dan reolaeth sydd yn cynhyrchu mwg neu fflamau
- Dŵr wedi mynd i mewn i'r synhwrydd
- Contractwyr yn gwneud "gwaith poeth"
- Ymyrraeth electromagnetig
- Difrod/Amhariad Mecanyddol

Amgylcheddol


- Stormydd trydanol
- Lleithder uchel
- Newid sylweddol mewn tymheredd
- Pwysedd ar brif gyflenwadau dŵr sydd yn gwasanaethu systemau taenellu awtomatig
- Mwg neu fygdarthau allanol
- Cyflymderau aer uchel

Technegol

- Nam mewn Systemau LTA
- Profi neu gynnal a chadw'r System LTA heb rybuddio'r Sefydliad Monitro Larymau Tân ymlaen llaw
- Dyfeisiadau anghywir neu ddyfeisiadau wedi eu gosod yn y lle anghywir (e.e. synwryddion mwg, synwryddion gwres, pwyntiau galw â llaw, ayb.)

FIRE

BREAK GLASS



PRESS HERE

Camau y gellir eu cymryd

Arolygu gweithdrefnau rheoli:

- Beth ddylai ddigwydd pan fydd y larwm yn seinio?
- Adnabod/ymchwilio'n ddiogel cyn galw'r GTA.

Adeiladau Newydd neu Atgyweirio Adeiladau

Gallwch atal camrybuddion yn ystod y broses o ddylunio system larwm. Dylech ystyried pa fath o synhwyrdd sydd fwyaf addas yn unol â diben yr ystafell. Er enghraifft, efallai ei bod hi'n gwbl anaddas defnyddio synhwyrdd mwg mewn rhan o'r adeilad lle mae llawer o lwch neu fygdarthau yn cael eu cynhyrchu; a hefyd efallai nad ydy synhwyrdd gwres yn dda i ddim os ydy'r tymheredd yn debygol o gynyddu'n gyflym iawn. Felly, mae'n rhaid i reolwyr busnesau a pheirianwyr larymau wybod beth yw'r amgylchiadau tebygol ym mhob rhan o'r adeilad i osgoi Systemau LTA rhag seinio'n ddiangen.

Mygdarthau Coginio

Mae mygdarthau coginio yn un o brif achosion camrybuddion, yn enwedig mewn Tai Amlfeddiannaeth (HMOs) a Chynlluniau Tai Cysgodol. Ni ddylid cadw drysau ar agor. Fe all mygdarthau coginio o'r gegin achosi i synwryddion mwg seinio mewn mannau cyfagos.

Camau gweithredu:

- Cadwch ddrysau ynghau neu gosodwch declynnau cau awtomatig ar ddrysau neu ddrysau sy'n cau â sbring
- Gosodwch ffan echdynnu a chofiwch ei gynnal a'i gadw
- Cofiwch adolygu'r math o synhwyrdd sydd wedi ei osod a'i leoliad – Mwg, Carbon Monocsid (CO), Synhwyrdd Gwres neu Aml-synhwyrdd. Fe ddylech ymgynghori â phartïon â diddordeb megis landlordiaid, GTAau ac Adrannau Iechyd yr Amgylchedd
- Gosodwch Switsh Popty/Trydan. Gellir eu gosod mewn safleoedd sydd yn dioddef camrybuddion o ganlyniad i fygdarthau coginio. Maent yn diffodd y trydan/nwy ar ôl cyfnod os nad ydy'r botwm diogelu wedi ei bwyso. Mae eraill yn defnyddio synwryddion symudiad sydd yn diffodd y trydan/nwy os ydy'r gegin wedi bod yn wag am gyfnod
- Trolïau Bwyd mewn Ysbytai – Ffordd o leihau camrybuddion gan droliâu bwyd yw marcio mannau diogel penodedig lle gellir gadael troliâu, a hynny ymhell o'r synwryddion
- Tostwyr – dylid cael gwared ar dostwyr heb amserydd neu gyfleuster codi'n sydyn

Stêm

Y mae synwryddion mwg weithiau'n seinio oherwydd stem. Gwnewch yn siŵr nad oes modd i stêm o boptai, cawodydd ac ystafelloedd ymolchi ayb. gyrraedd synwryddion mwg mewn manau cyfagos.

Camau gweithredu:

- Cadwch ddrysau ynghau neu gosodwch declynnau awtomatig ar ddrysau neu ddrysau sy'n cau â sbring
- Gosodwch ffan echdynnu a chofiwch ei gynnal a'i gadw
- Cofiwch adolygu'r math o synhwrydd sydd wedi ei osod a'i leoliad – Mwg, Carbon Monocsid (CO), Synhwrydd Gwres neu Aml-synhwrydd

Chwistrellau Aerosol

Fe ddylai staff glanhau fod yn ymwybodol bod chwistrellau aerosol sy'n cael eu defnyddio ger synwryddion mwg yn gallu achosi camrybuddion. Cymrwch bwyll wrth ddefnyddio aerosolau, a gwnewch hynny ymhell o synwryddion mwg.

Camau gweithredu:

- Addysgu preswylwyr

Llwch a phryfed mewn synwryddion

Dylid glanhau llwch sydd yn casglu mewn synwryddion pob chwarter gyda sugnwr llwch, fodd bynnag, dylid gofyn i gontractwr cynnal a chadw ac archwilio'r synwryddion yn rheolaidd yn ogystal.

Camau gweithredu:

- Chwistrellu hylif cadw pryfed draw (ond nid i mewn neu yn agos at y synhwrydd mwg)
- Gosod stribedi cadw pryfed draw ar y synhwrydd
- Cynnal a chadw a glanhau'r synhwrydd yn rheolaidd er mwyn cael gwared ar lwch a phryfed ger y synwryddion

Dŵr yn y synhwrydd

Dylid amddiffyn y synhwrydd rhag i ddŵr dreiddio i mewn iddo drwy'r nenfwd.

Camau Gweithredu:

- Dylid atgyweirio unrhyw wendidau o ganlyniad i law trwm neu ollyngiadau.



Mygdarthau allanol

Fe all mygdarthau allanol (e.e. gan danau glaswellt, rhostir, sbwriel, ayb.) achosi camrybuddion os ydynt yn mynd i mewn i'r adeilad drwy ffenestri agored neu unedau aerdymheru, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf.

Camau gweithredu:

- Dylech gysylltu â chymdogion i adnabod digwyddiadau a all achosi camrybuddion. Byddai hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth o gamrybuddion posib
- Drwy gau ffenestri yn ystod yr achosion hyn gallwch atal synwryddion mwg rhag seinio yn ddiangen yn yr adeilad

Profi heb Rybuddio Ymlaen Llaw

Pan fydd System LTA yn cael ei brofi heb rybuddio'r Sefydliad Monitro Larymau Mwg ymlaen llaw.

Camau gweithredu:

- Cyfathrebu'n well gyda'r Sefydliad Monitro Larymau Mwg

Peirianwyr/Contractwyr ar y safle

Mae Systemau LTA yn fwy tebygol o seinio'n ddamweiniol pan fydd Peirianwyr/Contractwyr ar y safle. Mae'n bosib y bydd hyn o ganlyniad i lwch (sydd yn effeithio ar synwryddion mwg) neu weithio'n rhy agos i System LTA (wrth wneud "gwaith poeth" megis torri, weldio neu ymyrryd â thrydan). Fe ddylai peirianwyr sydd yn gweithio ar y system wneud yn siŵr na fydd y System LTA yn seinio'n ddiangen.

Camau gweithredu:

- Gwneud yn siŵr bod gan Beirianwyr/Contractwyr Drwydded Gwaith Poeth a'u bod yn ei defnyddio
- Addysgu Peirianwyr/Contractwyr ynglŷn â lleihau camrybuddion a'r camau y dylent eu cymryd
- Ystyried system o osod dirwy yn ystod y cyfnod o osod contractau. Os ydy'r contractwr yn achosi i'r larwm seinio o ganlyniad i esgeulustod fe allai wynebu dirwy ariannol
- Rhoi gorchudd dros y synhwyrdd neu ynysu'r ardal a rhybuddio staff ynglŷn â'r newid dros dro yn y System LTA
- Glanhau gorchuddion cyn eu tynnu oddi ar y synwryddion
- Gwneud yn siŵr bod y gorchuddion yn cael eu tynnu ar ôl cwblhau'r gwaith a bod y system yn cael ei defnyddio fel arfer

Amgylcheddol

Fe all amgylchiadau amgylcheddol (e.e. tywydd garw yn enwedig stormydd trydanol, ayb.) achosi i Systemau LTA gamweithio a chynhyrchu camrybuddion.

Camau gweithredu:

- Ystyriwch ddatgysylltu Systemau LTA sydd wedi eu monitro yn ystod y cyfnod hwn os ydy'r person cydrifol ar gael; gallwch ffonio'r GTA yn uniongyrchol drwy alw 999 mewn argyfwng

Namau technegol

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymchwilio i achos pob camrybudd wedi'r digwyddiad a'ch bod yn cofnodi hyn. Gweithredwch ar unwaith, gan gynnwys y cwmni sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r System LTA os oes angen er mwyn atal camrybudd arall a gwella dibynadwyedd.

Camau gweithredu:

- Mae Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA) a'r Cymdeithasau Masnachu perthnasol yn annog defnyddio cwmnïau cynnal a chadw trydydd parti achrededig. Dylech ystyried defnyddio'r cwmnïau cynnal a chadw hyn
- Gwnewch yn siŵr bod y gwaith cynnal a chadw yn cydymffurfio gyda'r Safon Brydeinig berthnasol (h.y. BS5839)
- Gwnewch yn siŵr bod peiriannydd yn cael ei anfon i ddatrys unrhyw broblemau a bod camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith dros dro i atal achosion pellach os oes nam ar y system
- Gwnewch yn siŵr bod y broblem yn cael ei datrys cyn gynted â phosib er mwyn atal y GTA rhag cael ei alw allan eto o ganlyniad i'r un broblem
- Os ydy'r System LTA yn ddiffygiol, dylech roi camau ar waith yn ystod y cyfnod hwn (e.e. wardeniaid tân a galwadau 999 i'r GTA, ayb.)

Synhwrydd anghywir neu gosod yn y man anghywir

Gwyddwn fod gosod synhwrydd anghywir neu osod synhwrydd yn y man anghywir yn gallu achosi camrybuddion. Mewn rhai amgylchiadau mae synwryddion mwg sydd wedi cael eu gosod yn y man anghywir yn gallu achosi camrybuddion. Drwy ystyried defnyddio math gwahanol o synhwrydd fe allwch atal y tebygolrwydd o gamrybuddion.

Camau gweithredu:

- Dylech adolygu lleoliad y dyfeisiadau gyda'r sawl sydd wedi gosod y System LTA.
- Ystyriwch ddefnyddio dyfeisiadau gwahanol
- Fe all synhwrydd gwres atal nifer uchel o gamrybuddion, fodd bynnag, nid ydynt yn seinio'r un mor gyflym â synwryddion mwg ac felly nid ydynt yr un mor effeithiol. Er mwyn defnyddio synwryddion gwres mae'n rhaid gwneud yn siŵr bod yr Asesiad Risgiau Tân ar



gyfer y safle yn dwyn hynny i ystyriaeth. Ar gyfer eiddo lle mae pobl yn cysgu cydnabyddir y byddai unigolion yn yr ystafell lle byddai'r tân yn tarddu mewn perygl oherwydd y byddai'r synhwyrdd gwres yn seinio rhybudd yn hwyrach na synwryddion eraill. Fodd bynnag, byddai'n achosi i'r System LTA seinio a rhybuddio gweddill y bobl yn yr adeilad. Opsiwn arall, ar wahân i ddefnyddio synwryddion gwahanol, yw ystyried synhwyrdd mwg trydan sydd wedi ei gysylltu i'r System LTA yn ogystal â'r synhwyrdd gwres, a thrwy wneud hyn amddiffyn y bobl yn yr ystafell a chadarnhau a ydy'r synhwyrdd yn seinio'n ddiangen cyn i'r System LTA seinio. Pe byddai'r synhwyrdd gwres yn seinio yna byddai'r System LTA yn seinio rhybudd hefyd. Mae'n rhaid cynnal a chadw'r systemau hyn (y system awtomatig yn ogystal â'r larwm tân annibynnol)

- Dylech ddefnyddio Synwryddion Carbon Monocsid (CO) gyda'r System LTA cymeradwy os ydy mygdarthau coginio yn achosi camrybuddion yn barhaus. Fe ddylai'r synwryddion CO fod yn ychwanegol i'r System LTA a dylid eu gosod yn y manau hynny lle mae'r risg yn uchel
- Os ydy stêm o gawodydd yn achosi camrybuddion parhaus, gosodwch ddyfais Ïoneiddiad yn lle'r synhwyrdd mwg Optegol (os oes un wedi ei osod)
- Mae technolegau newydd, megis synwryddion amlsynhwyrdaidd yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran sensitifrwydd ac adnabyddiaeth. Dylech ystyried defnyddio technolegau newydd megis synwryddion hybrid er mwyn diogelu'r safle a lleihau camrybuddion ar yr un pryd. Wrth benderfynu pa synhwyrdd i'w osod, ystyriwch pa fath o weithgareddau y byddwch chi'n eu cynnal er mwyn gwneud yn siŵr bod y system yn gallu seinio yn ogystal â lleihau'r perygl o gamrybuddion

Rheoli gwael

Y mae camddealltwriaeth cyffredinol na ddylid poeni am drefniadau diogelwch tân ar safle oni bai bod y GTA ar fin cynnal arolwg. Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Y Gorchymyn Diogelwch Tân) 2005 bellach yn rhoi pwyslais ar reolwyr/perchnogion i reoli'r trefniadau hyn bob dydd.

Camau gweithredu:

- Annog perchnogaeth a rheolaeth well. Nid yw hi bellach yn dderbyniol galw'r GTA oherwydd bod y larwm wedi seinio. Ystyriwch adolygu'r Asesiad Risgiau Tân a'r gweithdrefnau ar gyfer y safle i adnabod camrybuddion amlwg cyn galw'r GTA (lle bo hynny'n bosib). Sylwch fod y camau hyn yn amodol ar yr Asesiad Risgiau Tân ar gyfer y safle

Gweithdrefnau rheoli

Fe all nifer uchel o'r achosion a nodir uchod gael eu hadnabod fel camrybuddion gan bobl ar y safle ac felly does dim angen ffonio'r GTA. Y mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus ble mae wedi cael ei weithredu.

Felly, gan ddibynnu ar yr Asesiad Risgiau Tân ar gyfer y safle, fe ddylech ystyried ymchwilio i weld a ydy'r larwm wedi seinio'n ddiangen cyn galw'r GTA. Byddai'n rhaid ymgorffori'r dull hwn i'r rhaglen hyfforddi ar gyfer y safle.

Os ydy'r safle'n defnyddio Sefydliad Monitro Larymau Tân (e.e. Canolfan Derbyn Larymau, ayb.) gallwch ystyried trefnu iddynt eich galw chi i weld pam bod y larwm wedi seinio cyn galw'r GTA.

Engheifftiau o Arferion Gwell - Cyfeiriwch hefyd at y Camau gweithredu blaenorol

- Fe ddylai pob safle sydd wedi cael camrybudd gael cyngor proffesiynol gan Bersonau Cymwys.
- Os ydy safle yn ystyried oedi neu "gyfnod ymchwilio" cyn galw'r GTA, dylid cadw'r pwyntiau canlynol mewn cof:
- Os digwydd i'r larwm seinio, dylai'r staff weld a oes rheswm amlwg dros y camrybudd (nid drwy ymchwilio'n drylwyr ond trwy adnabod yr achosion amlwg dros gamrybuddion fel y nodir uchod).
- Os ceir camrybudd dylid cofnodi hynny yn y Llyfr Log Diogelwch Tân.
- Dylid dilyn pob actifiant larwn tân awtomatig gyda galwad 999 i'r Gwasanaeth Tân ac Achub i gadarnhau un ai ei fod yn gam-rybudd neu yn wir TÂN.
- Fe ddylai safleoedd sydd yn defnyddio Sefydliadau Monitro Larymau Tân (e.e. ARC, TSP, ayb.) fod yn ymwybodol o Gòd Ymarfer CFOA "Best practice for summoning a fire response via Fire Alarm Monitoring Organisations" sydd ar gael ar y ddolen hon <http://www.cfoa.org.uk/10863>.

Rheoli safleoedd:

- Mae'n hanfodol bod safleoedd (yn cynnwys staff) yn cael eu rheoli, i wneud yn iawn am gamgymeriadau ac ymddygiad dynol a lleihau achosion o gamrybuddion

Tynnu'r System LTA oddi ar lein:

- Ystyriwch dynnu Systemau LTA oddi ar lein pan fydd y safle yn llawn neu yn ystod oriau gweithredol, e.e. pan fydd staff ar ddyletswydd neu yn ystod cyfnod gwaith penodol (os ydy contractwyr neu beirianwyr yn gweithio ar y system). Bydd hyn yn rhoi cyfle i staff wirio ac adnabod camrybuddion. Dylid adolygu gweithdrefnau rheoli pan fydd y sefydliad yn symud staff os ydy hyn yn arwain at gynnydd mewn camrybuddion a galwadau i'r GTA. Mae'n hanfodol bod y gweithdrefnau rheoli hyn yn ystyried y cyfnodau hynny pan fydd y system wedi ei datgysylltu a'i bod yn cael ei throï ymlaen yn ôl y galw



Geirfa

LTA	Larwm Tân Awtomatig: System awtomatig ar gyfer darganfod tân a seinio larwm.
ARC	Canolfan Derbyn Larymau (Alarm Receiving Centre) : Canolfan reoli o bell sydd yn derbyn gwybodaeth pan fydd Systemau LTA yn seinio.
Galwad yn ôl	Proses hidlo gan Sefydliadau Monitro Larymau Mwg (FAMO) i atal rhybuddion tân diangen. Os ydi hyn ar waith, bydd y FAMO yn ffonio'r safle ar ôl derbyn rhybudd gan aros 30 eiliad i rywun ateb yr alwad (neu hirach os oes cyfiawnhad dros hyn yn yr Aseiad Risgiau Tân). Os ydy'r alwad yn cael eu hateb ymhen 30 eiliad, mae'r broses hidlo galwadau yn parhau. Os nad ydy'r alwad yn cael ei hateb ymhen 30 eiliad, mae'r broes yn dod i ben ac mae rhybudd yn cael ei anfon i'r GTA.
CFOA	Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân
Person Cymwys	Person a enwebir gan y Person Cymwys sydd gan hyfforddiant, profiad a gwybodaeth ddigonol neu briodoleddau eraill i'w galluogi i gynorthwyo gyda'r dasg o roi mesurau atal ac amddiffyn ar waith.
Camrybudd	Rhybudd tân sydd wedi ei achosi gan unrhyw beth ar wahân i dân, sydd wedi achosi i'r system ymateb, unai yn unol â'i dyluniad neu fel ac y dylai'r dechnoleg ymateb i unrhyw un o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ▪ Ffenomenon neu ddylanwadau amgylcheddol tebyg i dân (e.e. mwg gan goelcerthi, llwch neu bryfed, prosesau a all achosi i systemau fod yn ansefydlog, ayb.) ▪ Difrod damweiniol ▪ Camau amhriodol gan unigolion (e.e. profi neu gynnal a chadw'r System LTA heb rybuddio'r bobl yn yr adeilad a/neu'r ARC cyn gwneud hynny) ▪ Camrybuddion gan offer, oherwydd bod nam ar y system
FAMO	Sefydliad Monitro Larymau Tân (Fire Alarm Monitoring Organisation): Term sydd yn cynnwys pob sefydliad monitro o bell (e.e. ARC, TSP, ayb.).
Hidlo	Camau a gymerir i atal camrybuddion rhag cyrraedd y GTA a chamau a gymerir gan y GTA i weld a oes angen anfon ymateb brys ai peidio. Gellir hidlo drwy: <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gyflwyno mesurau ar y safle ▪ Sefydliadau Monitro Larymau Tân ▪ GTA

GTA	Gwasanaeth Tân ac Achub
Person Cyfrifol	<p>Mae "person cyfrifol" wedi ei ddiffinio yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 fel:</p> <ul style="list-style-type: none">▪ Y cyflogwr, mewn perthynas â'r gweithle, os ydy'r gweithle o dan ei reolaeth ef/hi i unrhyw raddau▪ Mewn perthynas â safleoedd nad ydynt yn perthyn i'r categori uchod:<ul style="list-style-type: none">- Y person sydd yn rheoli'r safle (fel deiliad neu fel arall) mewn perthynas â masnach, busnes neu unrhyw fenter arall (am elw neu beidio)- Y perchennog, os nad oes gan y person sydd yn rheoli'r safle reolaeth mewn perthynas â'r masnach, busnes neu fenter arall y person hwnnw
TSP	<p>Darparwr Gwasanaeth Teleofal (Telecare Service Provider): Arferai'r rhain gael eu hadnabod fel Darparwyr Larymau Cymdeithasol. Mae'n wasanaeth sydd yn galluogi i bobl, yn enwedig pobl hŷn neu fregus, fyw yn annibynnol yn eu cartrefi hwy eu hunain. Fe all fod mor syml â gwasanaeth larwm cymunedol sylfaenol, sydd yn ymateb mewn argyfwng ac sydd yn cynnig cyswllt rheolaidd dros y ffôn. Fe all hefyd gynnwys synwryddion neu declynnau monitro sydd yn cadw llygaid ar symudedd a chodymau a thân a nwy ac sydd yn seinio rhybudd i ganolfannau sydd ar agor 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.</p>
RTD	<p>Rhybudd Tân Diangen: Camrybudd gan System LTA sydd wedi ei basio ymlaen i'r GTA.</p>